



Arwydd y 'Four Alls'

Mae'r arwydd tafarn hwn yn eitem ddiddorol yng nghasgliad creiriau o'r 19fed ganrif Amgueddfa Storiell, ac yn cynrychioli math o hysbysebu masnachol cynnar iawn i dafarn – sef arwydd tafarn y Four Alls, Caerhun. Arwydd astell pren wedi'i beintio gyda phaent olew, rhannwyd yr arwydd yn bedair rhan gan linellau wedi eu peintio'n ddu. Mae hyn yn sicrhau nad ydym yn ystyried bod y cymeriadau yn sefyll ochr yn ochr. Mae rhan gyntaf yn baentiad o'r Frenhines Fictoria (1837-1901) gyda'r arwyddair "I GOVERN ALL" oddi tanodd. Mae'r ail yn ddarlun o offeiriad gyda'r geiriau "I PRAY FOR ALL" wedi'i beintio oddi tanodd, a'r trydydd yn dangos milwr a'r geiriau "I FIGHT FOR ALL" oddi tanodd. Mae'r pedwerydd llun, y rhan olaf, yn dangos unigolyn sydd wedi'i wisgo yn llai ffurfiol gyda'r geiriau "I PAY FOR ALL" oddi tanodd. Yn anghyffredin iawn, ysgrifennwyd "D.J. Williams, Menai Bridge" yn y gornel dde isaf. Mae'n arwydd eithaf mawr, tua 130cm ar draws mewn ffrâm ddu drom.

Edrych yn fanwl

Er ei bod yn hawdd iawn adnabod tri o'r cymeriadau yn y ddelwedd hon oherwydd eu gwisg a'r pennawd, mae'r un ar y dde (I PAY FOR ALL) yn amwys. Gallai fod yn ffermwr, dyn busnes, benthyciwr arian neu fanciwr. Heb os, roedd pobl yn deall rôl y cymeriadau hyn a'u lle yn hierarchaeth gymdeithasol yr oes. Cafodd y cymeriadau eu cynrychioli yn gryf a'u symleiddio yn ddigydwybod. Mae cefndir pob panel yn gweddu gyda'r cymeriad yn y blaen, a ddim yn tynnu oddi wrtho, gan bwysleisio bod y pedwar cymeriad yma'n sefyll ar wahân yn eu fframiau eu hunain. Gan mai bod yn swyddogaethol oedd ei ddiben, roedd angen i'r arwydd gyfathrebu'n glir a bod yn llun diddorol a deniadol fyddai'n dal llygad cwsmer posib oedd yn mynd heibio. Byddai angen iddo hefyd gystadlu am sylw yn yr un modd ag arwyddion eraill yn yr ardal.

Byddai pren a phaent olew wedi cael eu defnyddio am resymau ymarferol i geisio sicrhau y gallai'r arwydd oroesi'r tywydd am rai blynyddoedd. Roedd paent olew yn cadw ei liw yn dda, a hyd yn oed

heddiw, mae'r lliwiau yn llachar, cynnes a deniadol, sy'n addas i arwydd sy'n ceisio denu pobl i fewn a threulio amser yn y dafarn.

Yn ystod canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gallai arlunwyr artisan ennill bywoliaeth drwy gynhyrchu delweddau i eglwysi neu adeiladau cyhoeddus eraill, ac ar y stryd megis arwyddion siopau neu dafarndai. Tybiwn mai D.J. Williams oedd enw'r arlunydd arbennig yma, er nad yw ei waith fel arfer wedi'i arwyddo. Yn anffodus, ac eithrio enw'r arlunydd, nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach am D.J. Williams. Byddai comisiwn fel hwn wedi bod yn un pwysig, ac heb os byddai'n dangos fod y arlunydd yn cael ei ystyried yn un medrus iawn. Mae enw'r arlunydd neu enw'r cwmni ar yr arwydd yn awgrymu y gallai'r gwaith hefyd fod yn fodd o nid yn unig hysbysebu'r dafarn, ond hefyd medrusrwydd yr arlunydd, a fyddai gobeithio yn arwain at fwy o waith. Fel yr arlunwyr masnachol a fyddai'n dilyn, mae'n debyg y byddai arlunydd o'r fath yn cael ei ystyried yn grefftwr neu ddrafftswm medrus a chymwys iawn yn hytrach na 'arlunydd'. Mae arwyddion o'r fath yn cynrychioli rhai o'r ffurfiau cynharaf o hysbysebu ac rydym yn gweld bod yr arwydd yma'n ceisio cyfleu neges yn ogystal ag enw'r dafarn. Gallai D.J. Williams fod yn gyfrifol am lawer o arwyddion yn yr ardal, ond mae'r rhain wedi eu colli gydag amser oherwydd iddynt hindreulio. Byddai'r deunyddiau a ddefnyddiwyd wedi para am nifer o flynyddoedd, ond heb os byddai'r arwyddion wedi cael eu hailbeintio neu eu tynnu i lawr pan ddaethant yn ddi-raen. Roedd yr arwydd yma'n rhan o Gasgliad Amgueddfa'r Capten John Jones. Roedd John Jones (1798 – 1876), yn gapten llong llwyddiannus a chasglwr o Lerpwl a sefydlodd ei amgueddfa ei hun yn 1848 ar Stryd Fawr, Bangor yng ngwaelod Lôn Pobty. Rhoddwyd yr amgueddfa i Ddinas Bangor yn 1870, ac yn 1909 symudodd i'r adeiladau newydd y tu ôl i'r llyfrgell newydd ar Ffordd Gwynedd, ac yn ddiweddarach i Storiel. Efallai i'r Capten Jones gael arwydd 'The Four Alls' ychydig ar ôl iddo gael ei beintio, sy'n esbonio pam ei fod mewn cyflwr mor dda.

Hanes arwyddion tafarndai

Nid arwyddion mewn gwirionedd oedd yr arwyddion cyntaf. Roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio llwyn i ddangos gwerthiant gwin, deilliodd y symbol o eiddew a dail y winwydden gan Bacchus, y duw Gwin. O ganlyniad, dylanwadodd hyn ar y symbolau cynnar a ddefnyddiwyd i ddynodi hyn: y llwyn, y polyn cwrw, polyn hopys neu dim ond dail fel eiddew.

O'r Oesoedd Canol ymlaen, daeth arwyddion tafarndai yn fwyfwy cyffredin fel modd o adnabod ble gellid prynu alcohol. Yn dilyn Deddf Seneddol yn 1430, daeth hyn yn ofyniad cyfreithiol. Roedd symbolau a lluniau yn hynod o bwysig fel modd o gyfathrebu oherwydd bod mwyafrif y bobl yn anllythrennog bryd hynny. Byddai tafarn neu dŷ cwrw yn arddangos tancard neu glwstwr o rawnwin, byddai cylllellwr yn gosod cylllell uwchben y drws, teiliwr, siswrn. Fel y tyfodd trefi a phentrefi, felly hefyd nifer y tafarndai, a defnyddiwyd yr arwydd i wahaniaethu tafarn oddi wrth ei chystadleuwyr ac fel modd o'i hadnabod a'i hargymell i eraill, gobeithio.

Heddiw, mae llawer o dafarndai yn arddangos llun sy'n cynrychioli eu henw, ond yn yr oes fodern gynnwys roedd y llun yn fodd o adnabod y dafarn, ac nid o anghenraid ei henw. Dros amser, daeth yr arwyddion i gael mwy o arwyddocâd i hunaniaeth y dafarn, a byddai enw'r dafarn yn newid i adlewyrchu hyn.



Trwydded alcohol y 'Four Alls'

Ystyr y 'Four Alls'

Nid yw hi yn anghyffredin i ddod ar draws tai tafarn ar hyd a lled Prydain gyda'r enw 'Four Alls' neu hyd yn oed 'Five Alls'.

Yn y Canol Oesoedd credir bod arwyddion o'r fath ond yn dangos tri chymeriad - y mynach, 'I pray for all'; y marchog, 'I fight for all'; y dyn cyffredin, 'I work for all, gyda llun o'r brenin/y frenhines ac weithiau gyfreithiwr ('I plead for all') yn cael eu hychwanegu yn ddiweddarach i ddangos 'Five Alls'.

Gallai'r thema yma hyd yn oed gael ei dehongli fel ffordd o ddychanu'r Eglwys Fethodistaidd a sefydlwyd yn y 1700au. Byddai gweinidogion Methodistaidd yn addunedu i beidio yfed gan annog eu cynulleidfaoedd i wneud yr un peth.

Weithiau caiff athrawiaeth Fethodistaidd ei chrynhoi i bedwar syniad penodol sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel y 'Four Alls': *'All need to be saved', 'All can be saved', 'All can know they are saved' a 'All can be saved completely'.*

Dehongliad pellach o ystyr yr arwydd yw bod arwydd y 'Four Alls' yn eithaf Sosialaidd o ran ei neges ac yn tansilio'r traddodiad o enwi tai tafarn ar ôl y frenhiniaeth, neu eitemau oedd yn gysylltiedig â'r frenhinaeth fel y 'Crown' neu'r 'Queen's Head' gan nodi bod cyfran fawr o enillion neu elw'r dyn cyffredin o'i ymdrechion yn cael eu defnyddio i gefnogi'r teulu brenhinol, i dalu am y Fyddin ac i gyfrannu at gyflog y Clerigwyr. Gallai hyn fod yn ffordd o annog rhai cwsmeriaid o gred wleidyddol gyffelyb i fynychu'r dafarn.

Ni chollodd arwyddion tafarndai erioed eu lle yn yr ymwybyddiaeth Brydeinig. Er eu bod yn debyg i arwyddion siopau, mae gan arwyddion tafarndai hirhoedledd hanesyddol. Tafarndai oedd yr adeiladau cyntaf i gael arwyddion a phan achosodd cyflwyniad rhifau stryd i arwyddion siopau gael eu diddymu, fe wnaethant barhau.

Roedd yr arwydd yn arwyddocaol i'r dafarn ei hun ond roedd hefyd yn hanfodol yn y modd roedd pobl yn deall ac yn mynd o gwmpas eu hamgylchedd. Hyd yn oed heddiw, nid yw'n anghyffredin cyfeirio teithiwr at y dafarn leol fel lleoliad i'w helpu i ddod o hyd i'w cyrchfan.

Gall arwyddion fel hwn ddangos i ni sut roedd y boblogaeth yn rhyngweithio gyda'r newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol ehangach. Roedd newid arwydd yn dangos bod y byd yn newid; drwy edrych ar arwyddion sefydliadau yfed gallwn gael syniad o farn eu cwsmeriaid, fel arfer byddai mwyafrif y rhain wedi eu colli i hanes. Yn aml, bydd hyd yn oed tai tafarn wedi eu hailwampio gyda'r holl gyfleusterau modern yn atgoffa eu cwsmeriaid am wreiddiau hanesyddol y dafarn drwy barhau i ddefnyddio'r enw gwreiddiol a dyluniad arwydd tafarn traddodiadol.

Llyfryddiaeth

https://warwick.ac.uk/fac/cross_fac/iatl/reinvention/archive/volume4issue1/dent/



Tafarn y 'Four Alls' Caernarfon yn yr 80au